

ERYRI

2023-24





Croeso i'r rhifyn diweddaraf o gyhoeddiad Eryri!

Welcome to the latest edition of Eryri!



Emyr Williams

Prif Weithredwr
Chief Executive

Un newid eithaf arwyddocaol y sylwch chi arno yn y rhifyn hwn yw bod teitl y cyhoeddiad wedi newid i 'Eryri' yn unig! Daw hyn yn sgil penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yr hydref diwethaf i arddel yr enw Cymraeg 'Eryri' yn unig wrth gyfeirio at y Parc Cenedlaethol. Bu'r ymateb i'r penderfyniad yn hynod gadarnhaol, a braf yw gweld cymaint o fusnesau a chyrff cyhoeddus eraill yn dilyn yr un trywydd.

Rydym yn edrych ymlaen at dymor prysur arall yma yn Eryri. Dros y gaeaf rydym wedi bod yn gweithio ar gynlluniau newydd i geisio sicrhau bod pawb yn cael y profiad gorau yma yn Eryri. Rydym yn cydweithio'n agos â phartneriaid i sicrhau darpariaeth ddigonol o drafnidiaeth gyhoeddus o fewn y Parc, ac i'r rhai sydd am ddod mewn ceir, byddant yn gallu defnyddio ein system synwryddion parcio newydd i hwyluso'r broses o ddod o hyd i le parcio. Bydd cynllun gwirfoddoli Caru Eryri hefyd yn ôl am ei drydydd tymor i geisio cadw Eryri'n glir o sbwriel.

'Does dim amheuaeth fod yr hinsawdd yn newid yma yn Eryri a thu hwnt. Rydym yn profi gaeafau mwynach a gwlypach, a hafau poethach a sychach sydd yn ei dro yn golygu bod rhaid i ni addasu'r ffordd yr ydym yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar y ddaear. Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri

hefyd ran allweddol i'w chwarae yn yr ymgyrch sero-net. Rydym eisoes yn ymgymryd â gwaith adfer mawndiroedd, ac eleni byddwn yn adeiladu ar ein gwaith plannu coed trwy gyhoeddi ein Strategaeth Goed newydd. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu Strategaeth Carbon Isel fydd yn gymorth wrth lywio gweithrediad yr Awdurdod yn y dyfodol.

Yn sicr mae gennym heriau o'n blaenau, ond mae gennym lawer o waith cyffrous ar y gweill hefyd! Mae prosiect Yr Wyddfa Ddi-Blastig wedi ei sefydlu ac yn ennill ei dir; mae ein Swyddog Pobl Ifanc newydd yn brysur yn ysgogi amgylcheddwyr y dyfodol, a 'Phrosiect Nos' yn parhau i addysgu a hudo cynulleidfaoedd o bob oed gyda swyn ein hawyr dywyll.

Mae her chwyddiant yn bryder arwyddocaol i deulu'r Parciau Cenedlaethol, ac mewn gwirionedd rydym yn wynebu toriadau amser real i'n cyllideb. Diogelu ardal mor arbennig yw ein blaenoriaeth ac yn ystod 2023 byddwn yn ystyried sut orau i fynd i'r afael â hyn. Trwy bori drwy dudalennau'r cyhoeddiad hwn gobeithio y cewch flas ar yr hyn yr ydym ni fel Awdurdod yn ei wneud i ofalu am yr ardal unigryw hon, ac y cewch chithau eich ysbrydoli i ymuno yn ein hymgyrch i ofalu am Eryri a'i diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

When picking up this year's paper I'm sure that many of you would have noticed one significant change to the publication - that it is now called simply 'Eryri'! This is following a decision made by the Authority last autumn to refer to the National Park by its Welsh name, Eryri, only. This change was met by overwhelming positivity, and it is very encouraging to see so many other businesses and public bodies embracing the change.

We look forward to another busy season here in Eryri. Over the winter we have been busy working on new incentives to ensure that everyone has the best possible experience here in Eryri. We're working closely with partners to ensure sufficient public transport provision within the Park, and for those who come by car, that they can use our new parking sensors system to help with parking logistics. The Caru Eryri volunteering scheme will also be back for its third season to help keep Eryri litter-free.

There is no doubt that the climate here in Eryri and beyond is changing. Our winters are milder and wetter, and our summers hotter and drier, which in turn means that we must adapt our methods for undertaking maintenance work. Eryri National Park has a key role

to play in the net-zero campaign. We are already undertaking peatland restoration work, and this year we will consolidate our existing tree planting schemes by publishing a new Trees Strategy. We are also working in collaboration with partners to develop a Low Carbon Strategy that will assist us to steer the Authority's operations in the future.

There are challenges ahead, but there is also a great deal of exciting work going on as well! The Plastic Free Yr Wyddfa project has been established and is gaining traction; our new Young People's Officer is busy motivating the future generation of environmentalists, and 'Prosiect Nos' is continuing to educate and mesmerise audiences of all ages with the mystique of our dark skies.

The challenge of inflation is a significant issue for the family of National Parks and in reality, we are facing real term cuts in our funding. We will be considering how best to address this during 2023 and safeguarding such a special place is our priority. By browsing through the pages of this publication we hope that you get a feeling for the work of the Authority to care for this unique area, and that you're inspired to join us in our campaign to care for and safeguard Eryri for future generations.

Gwybodaeth am Eryri ar flaenau eich bysedd!

Eisiau cynllunio ymweliad ag Eryri? Beth am ymweld â'n gwefan sy'n llawn dop o wybodaeth i'ch helpu i wneud y mwyaf o'ch amser yma.

Mae yno hefyd wybodaeth gynhwysfawr am y Parc Cenedlaethol a'r hyn sy'n ei wneud mor arbennig, a sut yr ydym ni fel Awdurdod yn mynd ati i'w warchod a'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.



www.eryri.llyw.cymru

Information about Eryri at your fingertips!

Want to plan a visit to Eryri? How about visiting our website which is jam packed with information to help you make the most of your time here.

There is also comprehensive information about the National Park and what makes it so special, and how we as an Authority work to protect and safeguard it for the future.

Dilynwch ni!
Follow us!



Rhagarchebu Parcio ym Mhen y Pass

Bydd trefn rhagarchebu parcio yn weithredol unwaith eto ym Mhen y Pass rhwng y 1st o Ebrill a diwedd mis Hydref.

I ragarchebu ewch i wefan Just Park www.justpark.com


Os nad ydych am barcio ym Mhen y Pass, gallwch barcio ychydig filltiroedd i lawr y ffordd yn Nant Peris a defnyddio gwasanaeth bws rheolaidd Sherpa'r Wyddfa i'ch cludo i Ben y Pass. Rhagor o wybodaeth ar www.sherparwyddfa.cymru

Pre-booking at Pen y Pass Car Park

A pre-booking arrangement will be operational once again at Pen y Pass between the 1st of April and the end of October.

To pre-book a space visit the Just Park website on www.justpark.com


If you don't wish to park at Pen y Pass, you can park a couple of miles down the road in Nant Peris and use the regular Sherpa'r Wyddfa bus service to take you up to Pen y Pass. More information on www.sherparwyddfa.wales



Papur wedi ei ailgylchu
Recycled paper

Rhoi'r iaith ar waith!

Yr iaith Gymraeg yw un o ieithoedd byw hynaf Ewrop, ac yma yn Eryri mae'n iaith bywyd a gwaith i'r mwyafrif o'r boblogaeth. Beth am helpu i ddiogelu dyfodol yr iaith Gymraeg trwy annog ffrindiau, teulu, cydweithwyr neu ymwelwyr i ddysgu a defnyddio'r iaith?



Immerse yourself in Welsh

The Welsh language is one of Europe's oldest living languages, and here in Eryri it is the language of daily life and work for most of the population. Have a truly authentic experience by using a little Welsh during your visit. The effort will be much appreciated, even if it's only a few words.

Cyfarchion - Greetings

Bore da	Good morning	borr-eh dah
P'nawn da	Good afternoon	p-noun dah
Noswaith dda	Good evening	noss-why-th th
Nos da	Good night	noss dah
S'mae?	How are you?	sm-aye
Diolch	Thank you	dee-olch
Croeso	Welcome	croy-so
Iechyd da!	Cheers!	yeah-ch-id dah!
Mae'n ddrwg gen i	Sorry	main-throog gen ee
Hwyl fawr	Goodbye	who-ill-vow-r
Dwi'n dysgu Cymraeg	I'm learning Welsh	dween duh-sgee come-raa-eeg




Ble mae.. Were is/are...

Esgusodwch fi	Excuse me	ess-giss-odd-ooch vee
Ble mae...	Where is...	blair my
Tŷ bach	Toilet	tee bach
Maes parcio	Car park	ma-ees park-i-o
Peiriant talu	Paying machine	pair-yant ta-lee
Biniau	Bins	been-ya-y



Y tywydd - The weather

Mae'n bwrw glaw	It's raining	main-boo-roo-gl-ow
Mae'n bwrw eira	It's snowing	main-boo-roo-ei-ra
Mae'n wyntog	It's windy	main-win-tog
Mae'n oer	It's cold	main-oi-er
Mae'n heulog	It's sunny	main-hay-log
Mae'n braf	It's fine	main bra-v



Rhai mynyddoedd - Some mountains

Yr Wyddfa (Snowdon)	ur With-va
Glyder Fawr	glid-er va-oor
Fach	va-ch
Glyderau (plural)	glud-er-aye
Tryfan	truh-van
Pen yr Ole Wen	pen ur Ol-eh When
Carneddau	kar-neth-eye
Cader Idris	kad-er eed-ris
Crib Goch	creeb go-ch
Yr Aran	ur Are-an



Archebu - Ordering

Ga i	Can I have	gah ee
Coffi	Coffee	cough-ee
Te	Tea	teh
Llaeth (south) or	Milk	ll-aye-th
Llefrith (north)		ll-ev-rith
Siwgrwr	Sugar	shoo-goor
Cwpan	cup	coop an
Dŵr	Water	do-r
Brechdan	Sandwich	bre-ch-dan
Cacenn	Cake	ca-ken
Os gwelwch yn dda	Please	oss gwell-loo-ch-un-tha



Rhai trefi a phentrefi Some towns and villages

Betws y Coed	bet-ws uh coyd
Blaenau Ffestiniog	b-lie-nye fest-in-yog
Beddgelert	beth-gel-err-t
Dolgellau	dol-gell-eye
Rhyd Ddu	rheed-thee
Dolwyddelan	dol-with-ell-ann



*ch - a throaty noise - just like a gentle snore!

*dd - soft sound as in the

*ll - put the tip of your tongue against your top front teeth and blow gently

Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi ei sefydlu dros 70 mlynedd yn ôl nid yw'r mwyafrif ohonom yn cofio'r adeg pan nad oedd Eryri'n Barc Cenedlaethol – mae'r rhan fwyaf o'i thrigolion wedi eu geni a'u magu o fewn ei ffiniau, a llawer o ymwelwyr wedi bod yn dod yma ers degawdau.



Eryri National Park

Established over 70 years ago most of us don't remember a time when Eryri was not a National Park – the majority of its residents have been born and raised within its boundaries, and many visitors have been coming here for decades.

Beth yw Parc Cenedlaethol?

Dynodiad ar ardal o dirwedd eithriadol sydd â'r gallu i ysbrydoli yw Parc Cenedlaethol. Yn ogystal ag am eu nodweddion daearegol, maent hefyd wedi eu dynodi er mwyn gwarchod a gwella eu bywyd gwyllt a'u treftadaeth diwylliannol arbennig. Nid parc cyhoeddus fel y ceir mewn trefi a dinasoedd yw Parc Cenedlaethol, ond ardal lle mae pobl yn byw a gweithio, ac yn dibynnu ar y tir am fywoliaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r tir o fewn Parc Cenedlaethol mewn perchnogaeth breifat.

What is a National Park?

A National Park is a designation of an exceptional landscape that has the power to inspire. As well as for their geographical features, they are also designated in order to protect and enhance their wildlife and special cultural heritage. A National Park is not a public park such as those in towns or cities, but an area where people live and work, and rely on the land for their livelihood. Most of the land within a National Park is privately owned.

Rhinweddau Arbennig Eryri

Mae gan bob un Parc Cenedlaethol o fewn y DG restr wedi ei ddiffinio'n glir o 'Rhinweddau Arbennig' sy'n nodi beth sy'n gwneud yr ardal yn arbennig ac unigryw. Yma'n Eryri mae gennym naw ohonynt, sy'n ein helpu i ddeall yr hyn y dylid ei ddiogelu a'i wella.

Tirweddau Hanesyddol

Mae grymoedd naturiol a gweithgarwch dynol sydd wedi gweithredu gyda'i gilydd wedi cyfrannu at gynhyrchu tirwedd hardd ac amrywiol iawn yn Eryri; ased cenedlaethol sy'n hanfodol i'n hunaniaeth genedlaethol ac i'n 'naws am le' a'n lles.

Historic Landscapes

Natural forces and human activity acting together have contributed to produce a landscape of great beauty and variety in Eryri; a national asset that is essential both to our national identity and to our individual 'sense of place' and wellbeing.

Llonyddwch ac Unigedd – Ardaloedd Heddychlon

Mae'n rhoi cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol yn weithredol, tra'n cynnal ardaloedd o llonyddwch ac unigedd, gan hyrwyddo agweddau ar iechyd, lles a myfyrdod personol.

Tranquillity and Solitude – Peaceful Areas

The opportunity for people to understand and enjoy Eryri National Park actively, whilst maintaining areas of silence, tranquillity and solitude, thus promoting vital aspects of health, well-being and personal reflection.

Eryri's Special Qualities

Each National Park within the UK has a clearly defined list of 'Special Qualities'. They set out what makes an area special and unique. Here in Eryri we have nine of them, which helps us understand what should be safeguarded and enhanced.

Cydlyniant Cymunedol

Yr ymdeimlad cadarn o gydlyniant cymunedol, a bywiogrwydd sy'n cyfuno i roi ymdeimlad cryf o le.

Community Cohesion

A robust sense of community identity, cohesion, continuity and inclusivity combine to give a strong 'sense of place and belonging' within Eryri.

Ysbrydoliaeth ar gyfer y Celfyddydau

Mae Eryri'n lle sydd wedi ysbrydoli rhai o ddiwylliant mwyafrif nodedig y genedl, llên gwerin, celfyddyd, llenyddiaeth a cherddoriaeth; dylanwad sy'n parhau ar draws yr holl weithgareddau creadigol hyd heddiw.

Inspiration for the Arts

Eryri is a place which has inspired some of the Nation's most notable culture, folklore, art, literature and music; an influence which continues across all creative pursuits to the present day.



Daeareg Byd Enwog

Daeareg gymhleth, amrywiol ac adnabyddus, hanfodol wrth dylanwadu ar ddisgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn rhyngwladol.

Renowned Geology

Complex, varied and renowned geology, which has been vital in influencing the disciplines of geology and geography internationally.



Bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg

Mae bywiogrwydd y Gymraeg fwyaf amlwg yn Eryri oherwydd mae'n parhau i fod yn ddewis iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol. Mae'n amlwg mewn enwau lleoedd lleol, y bywyd gwyllt a'r hanes sydd ynghlwm iddi ac felly mae'n rhan annatod o natur unigryw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal.

Vibrancy of the Welsh Language

The vibrancy of Welsh is most obvious in Eryri as it continues to be the choice of language in many social and professional environments. It is evident in local place names, the wildlife and history therein and is therefore intrinsic to the uniqueness of our cultural and natural heritage.

Hamddena, Dysgu a Hamdden

Cyfleoedd helaeth ar gyfer hamddena, dysgu a hamdden ar gyfer pobl o bob oed a gallu.

Recreation, Leisure and Learning

Extensive opportunities for recreation, leisure and learning for people of all ages and abilities.

Tirweddau Amrywiol

Amrywiaeth o dirweddau o ansawdd uchel ac ardaloedd arfordirol o fewn ardal ddaearyddol fach, yn amrywio o'r arfordir i ucheldiroedd tonnog i'r mynyddoedd garw y mae Eryri'n enwog amdanynt.

Diverse Landscapes

Diverse, high quality landscapes and seascapes within a small geographic area, ranging from coast to rolling uplands to rugged mountains for which Eryri is famed.

Cynefinoedd a Rhywogaethau Rhyngwladol Bwysig

Mae'r bioamrywiaeth aruthrol yn adlewyrchu amrywiaeth y dirwedd, y daeareg, yr hinsawdd a'r dulliau rheoli tir. Mae cyfoeth planhigion ac anifeiliaid yn sylfaenol i hanes, diwylliant, iaith, economi a lles parhaus yr holl bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn ymweld â hi.

Internationally Important Habitats and Species

The tremendous biodiversity reflects the varied landscape, geology, climate and land management practices. The richness of plants and animals is fundamental to the history, culture, language, economy and ongoing well-being of all people who live in and visit the area.

Prosiect Treftadaeth Harlech ac Ardudwy

Mae tirwedd hanesyddol Ardudwy yn gefnlen i hanes a threftadaeth eang sy'n cwmpasu canrifoedd. Mae'n darllen yn debyg i lawysgrif o filoedd o flynyddoedd o hanes diwylliannol, cymdeithasol a diwydiannol, oll wedi'i adrodd drwy archaeoleg, henebion, adeiladau, chwedlau ac atgofion.



Harlech and Ardudwy Heritage Project

The historic landscape of Ardudwy is a backdrop to an extensive history and heritage that spans centuries and where the landscape reads as a manuscript of thousands of years of cultural, social and industrial history, all told through archaeology, monuments, buildings, myths and memories.

Murddunnod yn adrodd cyfrolau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn chwarae ditectif ar furddunnod ac adeiladau amaethyddol gwag Ardudwy, sef y strïbed o dir ar ochr orllewinol y Rhinogydd gyda thua 16 milltir o arfordir.

Roedd y murddunnod yn bennaf yn gartrefi i'r gwerin-weithwyr: dynion y cychod llechi, delwyr te ac wyau, gweision fferm priod a'r tlodion. Maent yn adrodd hanes newidiadau mewn defnydd tir dros gyfnod o ganrifoedd - o'r arferiad o adeiladu anheddau ar dir comin, gan gynnwys traddodiad y Tŷ Unnos, i'r Deddfau Cau Tiroedd a gyflwynwyd o'r 17^{eg} hyd yr 20^{fed} ganrif gan arwain at wthio trigolion yr anheddau hyn i gyrion eu cymunedau.

Dyma dirwedd hanesyddol sydd wedi esblygu drwy hanes ac mae'n parhau i newid. Ysgogiad y prosiect hwn oedd yr ansicrwydd am ddyfodol amaethyddiaeth yn sgil Brexit, gan arwain at ddadansoddiad o newidiadau blaenorol mewn defnydd a rheolaeth tir a sut maen nhw wedi amlygu ei hunain dros amser.

Murddunnod (ruins) speak volumes

For the past year we've been playing detective on the *murddunnod* (ruins) and abandoned agricultural buildings of Ardudwy, the strip of land on the western side of the Rhinogydd with around 16 miles of coastline.

The *murddunnod* were largely the homes of the 'gwerin-weithwyr' (*working poor*): slate boat men, tea and egg dealers, married farm-hands and paupers. They tell a story of changes in land use over a period of centuries, from the custom of building dwellings on common land, including the Tŷ Unnos tradition, to the Land Enclosure Acts of the 17th to the 20th century which resulted in residents of these dwellings being pushed to the peripheries of their communities.

This is a historic landscape that has evolved throughout history and it continues to change. The impetus for this project was the uncertainty over the future of agriculture as a result of Brexit, which prompted an analysis of previous changes in land use and management and how they have manifested themselves over time.



Muriau'n Siarad

Mae'r prosiect wedi cynnwys cydweithio efo Cadw ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i fapio adeiladau amaethyddol (y rhai sydd mewn defnydd a'r adfeilion), a chyda Phrifysgol Sheffield i gwblhau arolwg cychwynnol o ddau furddun, sef Llam Maria a Than Daran. Rydym hefyd wedi ymgymryd â gwaith recordio hanes llafar gyda thrigolion y gymuned leol sy'n geidwaid ar straeon y tir, a chynnal teithiau tywys i ymgysylltu pobl â'r dirwedd hanesyddol. Gweithiwyd hefyd gyda grwpiau treftadaeth lleol a Chasgliad y Werin Cymru i gefnogi gwaith parhaus i ddiigo a chofnodi treftadaeth gymunedol.

Yn 2023, bydd rhagor o waith ymgysylltu cymunedol yn digwydd, yn ogystal â chyfnod preswyl gydag artistiaid mewn ysgol leol, lle bydd disgyblion yn gweithio gydag artistiaid proffesiynol i gael eu hysbrydoli gan y murddunnod ac ail-ddehongli eu straeon ar gyfer yr G21.

Talking Walls

The project has included working with Cadw and the Gwynedd Archaeological Trust to map agricultural buildings (both extant and ruins), and with Sheffield University to undertake an initial archaeological survey of two ruins, Llam Maria and Tan Daran. We have undertaken work to record oral histories with residents of the local community who are the custodians of the stories of the landscape, and have held guided walks to engage people in the historic landscape. We have also worked with local heritage groups and People's Collection Wales to support ongoing digitisation and community heritage recording.

In 2023 we will see further community engagement take place as well as a school artist residency where local pupils will work with professional artists to take inspiration from the *murddunnod* and re-interpret their stories for the C21.



© Heather Jones

Dewch i'n gweld yn ein Canolfannau Croeso! Visit us at our Information Centres!



Aberdyfi



Betws y Coed



Beddgelert

Os hoffech dderbyn cyngor dibynadwy ar gyfer eich ymweliad ag Eryri, yna ewch ar eich union i'n Canolfannau Croeso! Mae gan ein staff cyfeillgar wybodaeth leol ragorol a gallant eich helpu i gynllunio eich diwrnod.

If you're after reliable advice on your visit to Eryri, then look no further than our Information Centres! Our friendly staff have excellent local knowledge and can help you plan your day.

Gallwch ddod o hyd i ni yn...
You can find us at...

Aberdyfi (Tymhorol / Seasonal)

Lle i ddod o hyd i ni?

Ar y cei yng nghanol y pentref, drws nesaf i'r lawnt (LL35 OEE).

Oriau agor?

9.30yb - 5yh, 7 diwrnod yr wythnos (Pasg - Hydref)

Sut i gysylltu â ni?

01654 767 321
tic.aberdyfi@eryri.llyw.cymru

How to find us?

On the wharf in the middle of the village, next to the lawn (LL35 OEE).

Opening times?

9.30am - 5pm, 7 days a week (Easter - October)

How to contact us?

01654 767 321
tic.aberdyfi@snowdonia.gov.wales

Betws y Coed

Lle i ddod o hyd i ni?

Yn ymyl y grŵn ar Stryd yr Orsaf, drws nesaf i faes parcio APCE (LL24 OAH).

Oriau agor?

9.30yb - 5yh, 7 diwrnod yr wythnos (10yb - 4yp yn y gaeaf)

Sut i gysylltu â ni?

01690 710 426
tic.byc@eryri.llyw.cymru

How to find us?

By the green on Station Road, next to the SNPA car park (LL24 OAH).

Opening times?

9.30am - 5pm, 7 days a week (10am - 4pm in the winter)

How to contact us?

01690 710 426
tic.byc@snowdonia.gov.wales

Beddgelert (Tymhorol / Seasonal)

Lle i ddod o hyd i ni?

Yn yr hen gapel ar ochr y ffordd ychydig islaw gwesty'r Royal Goat (LL55 4YD).

Oriau agor?

Hanner Tymor Chwefror a phenwythnosau hyd y Pasg - 10yb-4yp
9.30yb - 5yh, 7 diwrnod yr wythnos (Ebrill - Hydref)

Sut i gysylltu â ni?

01766 890 615
tic.beddgelert@eryri.llyw.cymru

How to find us?

In the old roadside chapel, a little down the road from the Royal Goat Hotel (LL55 4YD).

Opening times?

February Half Term and weekends leading to Easter - 10am-4pm
9.30am - 5pm, 7 days a week (April - October)

How to contact us?

01766 890 615
tic.beddgelert@snowdonia.gov.wales

Ychwanegiadau cyffrous i arddangosfa Betws y Coed!

Galwch draw i Ganolfan Groeso Betws y Coed i fwynhau'r arddangosfa ar ei newydd wedd! Mae rhywbeth yma i bawb!

Cewch fwynhau'r olygfa o gopa'r Wyddfa heb dorri chwys gyda'n penwsg realiti rhithwir!

Cyfle i blant bach (a mawr!) ddysgu am y dirwedd a chyfuchlinau trwy weithgaredd rhyngweithiol y twb tywod!

Eisteddwch yn ôl ac ymlaciwch yn ein theatr fechan i fwynhau ffilm o ehediad dros Yr Wyddfa o safbwynt aderyn!

Canfyddwch y gwahanol deithiau cerdded yn ardal Betws y Coed - mae rhywbeth yno i bawb.

Exciting additions to the Betws y Coed exhibition!

Pop in to our Information Centre at Betws y Coed to enjoy the newly refurbished exhibition area! There is something here for everyone!

You can enjoy the view from the summit of Yr Wyddfa without breaking a sweat with our virtual reality headset!

An opportunity for small children (and the big ones!) to learn about the landscape and contour lines through our new sand box interactive activity!

Sit back and relax in our small theatre to enjoy a bird eye flight film over Yr Wyddfa.

Discover the various walks in the Betws y Coed area - there's something to suit everyone.



Helpwch ni i ofalu am Eryri

O'i chopaon geirwon a'i mawndiroedd anghysbell, i'w llynnoedd rhewlifol a'i thraethau euraidd, mae rhywbeth i bawb yn Eryri. Does ryfedd felly bod miliynau o bobl yn ymweld â'r Parc Cenedlaethol bob blwyddyn.

Mae'r pwysau hyn yn rhoi straen sylweddol ar y dirwedd naturiol, yr isadeiledd ac ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Trwy gymryd camau bach, syml, gallwch chi sicrhau bod eich profiad yma yn un da, tra ar yr un pryd yn gwarchod Eryri a'i phobl...



Help us care for Eryri

From rugged peaks and remote moorlands, to glacial lakes and golden beaches, there is something for everyone in Eryri. It is no wonder then, that millions of people visit the National Park every year.

This pressure puts a lot of strain on the natural environment, the infrastructure and the people who live and work here. By taking a few small, simple steps, you can make sure that you have a great experience, while at the same time helping to protect Eryri and her people...

Cynlluniwch ymlaen llaw

Cynlluniwch eich diwrnod ymlaen llaw. Mae meysydd parcio'n llenwi'n gynnar yn y bore ar benwythnosau ac yn y tymor brig, felly ystyriwch ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Gallwch gynllunio eich taith trwy ymweld â www.traveline.cymru. Cefnogwch ffermwyr a'r gwasanaethau brys drwy beidio â pharcio mewn cilfannau nac mewn mynedfeydd i gaeau.

O'r Gwanwyn i'r Hydref rhaid rhagarchebu i barcio ym Mhen y Pass ar droed Yr Wyddfa. Ewch i'n gwefan am fanylion.

Tip! Byddwch â chynllun wrth gefn rhag ofn ei bod rhy brysur yn eich dewis cyntaf!

Plan in advance

Plan your day in advance. Car parks fill up early on weekends and in peak season, so consider using public transport. You can plan your trip by visiting www.traveline.cymru. Please support farmers and emergency services by not parking in laybys and across field entrances.

From Spring to the Autumn parking spaces at the Pen y Pass car park on the foothill of Yr Wyddfa must be pre-booked. Visit our website for information.

Tip! Have a back-up plan in case it's too busy at your destination of choice!



Ewch â'ch sbwriel adref

Llynedd, casglodd gwirfoddolwyr dros 400 o fagiau o sbwriel, a hynny yn bennaf o ardal gogleddol y Parc Cenedlaethol! Trwy fynd â'ch sbwriel adref byddwch yn diogelu bywyd gwylt ac yn rhoi cyfle i eraill fwynhau Eryri ar ei orau. Cofiwch fynd â'ch gwastraff bwyd adref efo chi hefyd - gall gwastraff organig gymryd blynyddoedd i bydru, ac mae'n effeithio ecosystemau naturiol.

Tip! Beth am fynd â bag efo chi a chodi sbwriel ar eich ffordd yn ôl?

Take your litter home

Last year, volunteers collected over 400 bags of rubbish, and that's from areas in the north of the National Park! By taking your litter home you will be safeguarding wildlife and giving others the opportunity to enjoy Eryri at it's best. Remember to take your food waste home with you too - organic waste can take years to decompose, and it affects natural ecosystems.

Tip! How about taking a bag with you and pick up any litter you find on your way back?

Padlfyrddio a nofio gwyllt

Mae padlfyrddio a nofio gwyllt wedi dod yn hynod boblogaidd dros y blynyddoedd diweddar. Mae llawer o lynnoedd ac afonydd mewn perchnogaeth breifat, felly rhaid gofyn caniatâd y tîrfeidiannwr ymlaen llaw. Gall padlfyrddio neu nofio mewn ardaloedd sensitif fel gwarchodfeydd natur ddifrodi cynefin bregus llyn neu afon ac felly dylid eu hosgoi.

Tip! Cadwch at lynnoedd lle caniateir a darperir ar gyfer chwaraeon dŵr.

Paddleboarding and wild swimming

Paddleboarding and wild swimming have become a very popular pastime in recent years. Many lakes and rivers are privately owned, therefore landowner's permission must be sought in advance. Paddleboarding or swimming in sensitive areas such as nature reserves can damage a lake or river's sensitive habitat and should therefore be avoided.

Tip! Stick to lakes where watersports are permitted and catered for.



Faniau cysgu

Byddwch yn ystyriol o eraill sydd am fwynhau tawelwch a llynyddwch Eryri trwy beidio ag aros dros nos mewn cilfannau, safleoedd hamdden neu feysydd parcio. Mae trigolion yn ogystal ag ymwelwyr yn mwynhau ymlacio mewn llecynnau hardd ar ôl diwrnod o waith, ond mae cilfannau llawn faniau cysgu yn amharu ar y llynyddwch mae pobl yn dod yma i'w fwynhau.

Tip! Cefnogwch fusnesau lleol drwy aros mewn meysydd gweryslla swyddogol.

Campervans

Be considerate of others who come here to enjoy the peace and tranquillity of Eryri by not staying overnight in laybys, beauty spots or car parks. Residents as well as visitors like to unwind at beauty spots after a day's work, but campervan lined laybys can negatively impact on the very tranquillity that people come here to enjoy.

Tip! Support local businesses by staying at official campsites.

Cŵn

Gall hyd yn oed y cŵn anwylaf niweidio neu beri gofid i anifeiliaid fferm a bywyd gwylt. Ar dir Mynediad Agored mae'r gyfraith yn mynnu y dylid cadw cŵn ar dennyn byr rhwng y 1^{af} o Fawrth a'r 31^{ain} o Orffennaf pan fydd adar yn nythu, a phob tro pan fydd anifeiliaid fferm gerllaw. Codwch faw eich ci a'i waredu'n gyfrifol.

Tip! Defnyddiwch fag bioddiraddadwy i godi baw eich ci.

Dogs

Even dogs with the sweetest temperament can harm or cause distress to livestock and wildlife. On Open Access Land the law stipulates that dogs must be kept on a short lead during nesting season between the 1st of March and the 31st of July, and at all times when there are livestock nearby. Pick up your dog's mess and dispose of it responsibly.

Tip! Use a biodegradable bag to pick up your dog mess.



Dathlu Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Celebrating the Slate Landscapes of North West Wales



"Dwi 'rioed 'di gweithio'n chwarel, ond mae gen i lechan yn y gwaed", dyna eiriau grŵp cyfoes Anweledig yn eu cân Graffiti Cymraeg, yn cyfleu arwyddocâd y diwydiant lechi i gymunedau chwaryddol heddiw. Mae dylanwad y diwydiant ar economi, cymdeithas a diwylliant y cymunedau yn parhau i siapio eu hunaniaeth hyd heddiw, ac mae hynny'n destun balchder enfawr.

Dynodwyd Tirwedd Lechi Gogledd Orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn ystod haf 2021. Dyma'r 4^{ydd} dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yng Nghymru, yn dilyn Traphont Pontcysyllte, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenavon a Chestyll a Muriau Tref Brenin Edward y Cyntaf yng Ngwynedd. Mae presenoldeb y chwareli, eu strwythurau a'u tomenni ynghyd â diwylliant cymunedau'r chwarel yn cyfuno i greu cymeriad tirweddol cwbl unigryw.

Dyma ardal ddaearyddol eang, sy'n ymestyn o Fethesda yn y gogledd i Abergynolwyn yn y de, o Ddyffryn Nantlle yn y gorllewin, draw i Ffestiniog yn y dwyrain. Gan igam-ogamu i mewn ac allan o ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri, mae'r dirwedd lechi yn nodwedd gref o dreftadaeth ddiwylliannol y Parc. Mae stori

lechi'r fro hon yn cyfleu hanes cyfoethog esblygiad yr ardal - ei gwreiddiau amaethyddol a'i deffroad diwydiannol. Mewn rhai ardaloedd, bu'r esblygiad yma yn newid parhaol ac mae aneddiadau fel Abergynolwyn, Bethesda, Llanberis a Blaenau Ffestiniog yn adnabyddus am eu treftadaeth chwaryddol, ond mewn ardaloedd eraill, fel Cwm Pennant a Chwmystradllyn, cafodd y tir ei hawlio'n ôl gan amaethyddiaeth a byd natur, yn sgil cwmpw buan y diwydiant lechi yno. Dros amser serch hynny, daeth yr ardal gyfan yn adnabyddus fel bro a "roddodd do ar fyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg".

Mewn amryw ardal a chymuned, mae olion y diwydiant llechi i'w gweld yn glir ar dir a thirwedd, mewn golygfeydd, adeiladau a henebion gwych ond mae gwaddol y diwydiant hefyd i'w deimlo yn iaith, traddodiadau cerddorol, chwaraeon a llenyddol a hanes yr ardal.

Nod dynodiad Safle Treftadaeth y Byd ydi dathlu'r dreftadaeth a'r dirwedd, gan adnabod eu pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol, yn lleol ac yn fyd eang, a hynny er mwyn creu cyfleodd ar gyfer y dyfodol. Yn hynny o beth, ymddengys bod gennym oll "lechan yn y gwaed".



"Dwi 'rioed 'di gweithio'n chwarel, ond mae gen i lechan yn y gwaed" ("I've never worked in the quarry, but there's slate in my blood"), these are the words of contemporary music group, Anweledig, in their song, Graffiti Cymraeg, conveying the significance of the slate industry to their surrounding quarrying communities today. The socio-economic and cultural impact of the industry on the communities continues to shape their identity and this is the subject of great pride.

The Slate Landscape of North West Wales was designated a UNESCO World Heritage Site in summer 2021. This is the 4th designated World Heritage Site in Wales, following the Pontcysyllte Viaduct, the Blaenavon Industrial Landscape and the Castles and Town Walls of Edward I in Gwynedd. The presence of quarries, their structures and slate tips, combine with the culture of quarrying communities to create a unique landscape character.

The geographic area is extensive, stretching from Bethesda in the north to Abergynolwyn in the south, from Dyffryn Nantlle in the west to Ffestiniog in the east. Weaving in and out of the Eryri National Park boundary,

the slate landscape is a major element of the Park's cultural heritage. The slate story of this area conveys the rich history of the area's development - its agricultural roots and its industrial awakening. In some areas, this development led to a permanent change and settlements such as Abergynolwyn, Bethesda, Llanberis, and Blaenau Ffestiniog are renowned for their quarrying heritage, but in other areas such as Cwm Pennant and Chwmystradllyn, land was reclaimed by agriculture and nature following the early demise of the industry there. Nevertheless, over time, the whole area became known for having "roofed the 19th century world".

In various areas and communities, remains of the slate industry are clearly seen in the landscape, views, buildings and monuments, but the legacy of the industry is also felt in the area's language and musical, sporting and literary traditions.

The aim of the World Heritage Site designation is to celebrate the heritage and landscape, recognising their historical and cultural significance, both locally and globally, in order to foster opportunities for the future. To this end, it appears that we all have "slate in the blood".

Meithrin talentau'r dyfodol!

Nurturing future talent!

Ailish Roberts yw Swyddog Pobl Ifanc Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Trwy ei gwaith mae hi'n gyfrifol am ymgysylltu gyda phobl ifanc er mwyn meithrin ac annog gwerthfawrogiad a diddordeb yn y Parc Cenedlaethol a'r amgylchedd naturiol. Gwna hyn drwy amryw brosiectau cyffrous...

Ailish Roberts is the National Park Authority's Young People's Officer. Through her work she is responsible for engaging with young people in order to nurture and promote an interest in the National Park and the natural environment. She achieves this through various exciting projects ...



Ysgol Goedwig

Yn ystod y flwyddyn cynhelir sawl Ysgol Goedwig mewn amrywio goedlannau ledled y Parc Cenedlaethol. Y nod yw ysbrydoli ac annog plant i ymwneud â natur o oed ifanc. Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog fel chwilota am drychfilod, dysgu am adar a bywyd gwyllt, neu waith celf bydd y plant yn dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein hamgylchedd naturiol.



Forest School

During the year many Forest School sessions are held in various woodlands across the National Park. The aim is to inspire and encourage children to connect with nature from a young age. By taking part in fun activities such as insect hunts, learning about birds and wildlife, or arts and crafts, the children will learn about the importance of looking after our natural environment.

Cydweithio gyda Choleg Dinbych

Trwy ei gynllun 'Adventure Education' bydd disgyblion o Goleg Dinbych yn ymgymryd â gwaith cadwraeth fel clirio rhywogaethau ymledol (fel y *Rhododendron ponticum*) gydag Awdurdod y Parc. Trwy dreulio amser yn yr awyr agored y gobaith yw annog cysylltiad rhwng pobl ifanc a'u hamgylchedd naturiol, tra hefyd yn cyfrannu at eu gwaith academaidd.



Working in collaboration with Denbigh College

Through its 'Adventure Education' scheme, pupils from Denbigh College undertake conservation work such as invasive species clearance (like the *Rhododendron ponticum*) with the Park Authority. By spending time in the outdoors we hope to encourage a connection between young people and their natural environment, while also contributing to their academic work.

Ceidwaid Ifanc

Bob blwyddyn bydd grŵp o bobl ifanc yn cael eu dethol i fod yn rhan o'r Cynllun Ceidwaid Ifanc, sef cynllun ar y cyd rhwng Awdurdod y Parc a'r Bartneriaeth Awyr Agored. Trwy gyfarfod yn fisol ar y penwythnosau bydd y bobl ifanc yn dysgu am wahanol agweddau o waith cadwraeth, hanes a diwylliant, sgiliau awyr agored yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog.



Young Rangers

Each year a group of young people are selected to take part in our Young Rangers Scheme, which is run as a partnership between the Park Authority and the Outdoors Partnership. Meeting on a weekend once a month, the youths learn about various aspects of conservation work, history and culture, outdoor skills as well as taking part in fun physical activities.



Os hoffech chi ragor o wybodaeth ynghylch ein gwaith gyda phobl ifanc yna mae croeso i chi gysylltu gyda ni ar parc@eryri.llyw.cymru

If you would like more information about our work with young people you are welcome to contact us on parc@eryri.llyw.cymru

Cipolwg ar: Twristiaeth Gynaliadwy

Mae Dana Williams, Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy Awdurdod y Parc yn cydweithio gyda phartneriaid a busnesau lleol i hyrwyddo ymweliadau cynaliadwy â'r Parc Cenedlaethol. Ond beth yn union yw Twristiaeth Gynaliadwy? Dana sy'n egluro...



Focus On: Sustainable Tourism

Dana Williams, the Park Authority's Sustainable Tourism Officer works with partners and local businesses to promote sustainable visits to the National Park. But what exactly is Sustainable Tourism? Dana tells us more...

Beth a olygir gyda Thwristiaeth Gynaliadwy?

Mae croesawu ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol yn bwysig iawn i ni; rydym eisiau hyrwyddo dealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud Eryri mor eithriadol ac i bobl fwynhau'r Rhinweddau Arbennig sydd gan Eryri i'w gynnig. Rydym yn ymdrechu i ddarparu safon uchel o brofiad ymwelwyr a sicrhau fod pawb sy'n ymweld ag Eryri'n mwynhau'r ardal i'r eithaf, yn gofalu am yr ardal trwy adael dim olion, a bod yn garedig ac ystyriol o ddefnyddwyr eraill a'r bobl sy'n byw a gweithio o fewn y Parc Cenedlaethol. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng twristiaeth a gwarchod ein Rhinweddau Arbennig er mwyn sicrhau fod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i fwynhau Eryri.

What do we mean by Sustainable Tourism?

Welcoming visitors to the National Park is of great importance to us; we want to promote an understanding of what makes Eryri such an exceptional place and for people to enjoy the Special Qualities Eryri has to offer. We strive to provide a high standard of visitor experience and ensure that all who visit Eryri have an authentic experience, tread lightly by leaving no trace, and be kind and considerate to other users and to the people who live and work within the National Park. There must be a balance between tourism and conserving our Special Qualities in order to ensure that future generations can continue to enjoy Eryri.

Sut all ymwelwyr elwa o fod yn dwristiaid cynaliadwy?



Gall bod yn ymwelydd cynaliadwy gynnwys trochi eich hunan yn y gymuned leol trwy fwynhau eu cynnyrch lleol, dysgu am ddiwylliant, hanes a threftadaeth yr ardal, ac wrth gwrs yr iaith Gymraeg! Byddai hyn yn rhoi profiad gwirioneddol ac o ansawdd uwch, gan alluogi ymwelwyr i wneud y mwyaf o'u hymweliad.

Trwy ddewis gadael y car a defnyddio dulliau mwy cynaliadwy o deithio fel trafniadaeth gyhoeddus, beicio neu gerdded, gall ymwelwyr gael gwared â'r straen o yrru a pharcio.

Bydd twristiaid cynaliadwy yn darganfod y lleoedd llai poblogaidd ac yn ymweld ar adegau tawelach. Mae hyn yn ffordd wych o wneud y mwyaf o'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig a mwynhau ychydig o heddwch a thawelwch Eryri.

Fel ymwelydd cynaliadwy, y budd mwyaf oll yw gwybod eich bod yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r ardal yr ydych yn mwynhau ymweld â hi trwy warchod y cymunedau sy'n byw ac yn gweithio yno, yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt. Trwy wneud hyn gallwn sicrhau bod Eryri'r un mor eithriadol i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau.



How can visitors benefit from being sustainable tourists?

Being a sustainable visitor can include immersing yourself in the local community by enjoying their local produce, learning about the culture, history and heritage of the area and of course the Welsh language! This approach means that visitors can have a higher quality and more authentic experience, making the most of the visit.

By opting to leave the car behind and taking more sustainable modes of transport such as public transport, bike or walking, visitors can leave behind the stress of driving and parking.

Sustainable tourists may also venture off the beaten track and visit during quieter times. This is a great way to make the most of what the area has to offer and enjoy some of Eryri's peace and tranquillity.

As a sustainable tourist, the greatest benefit of all is knowing that you are giving back to the area you love to visit by protecting the communities who live and work there, the environment and wildlife. By doing this we can ensure that Eryri is just as exceptional for future generations to enjoy.

Sut mae cymunedau lleol yn elwa o Dwristiaeth Gynaliadwy?

Gall cymunedau lleol elwa o dwristiaeth gynaliadwy trwy eu galluogi i adeiladu economi leol gadarn a datblygu busnesau lleol a brandiau, sydd yn eu tro yn golygu y gallant gynnig cyfleon cyflogaeth sefydlog, trwy gydol y flwyddyn yn yr ardal. Mae hyn yn helpu i sicrhau fod cymunedau gwledig Eryri'n parhau i fod yn ardal i fyw a gweithio ynddi, a bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

Gall twristiaeth gynaliadwy hefyd helpu cymunedau lleol i warchod Rhinweddau Arbennig eu hardal trwy gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a gwerthfawrogiad, a thrwy alluogi ymwelwyr i roi rhywbeth yn ôl i ardal yn ystod eu hymweliad gan adael effaith bositif.



How does Sustainable Tourism benefit local communities?

Local communities can benefit from sustainable tourism by enabling them to build a strong local economy and develop local businesses and brands, which in turn means that they can offer more stable, year-round employment opportunities in the area. This helps to ensure that Eryri's rural communities continue to thrive as a living and working area, and that the Welsh language continues to prosper.

Sustainable tourism can also help local communities to protect the Special Qualities of their area by increasing awareness, knowledge and appreciation, and by enabling visitors to give back to an area during their visit and leaving a positive impact.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Chyngor Gwynedd wedi cydweithio i lunio a mabwysiadu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035. Trwy gydol y broses rhoddwyd ystyriaeth i ddiffiniad Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig o dwristiaeth gynaliadwy:

"Twristiaeth sy'n cymryd llawn ystyriaeth o'i effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac i'r dyfodol, gan ymateb i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau lleol".



The National Park Authority and Cyngor Gwynedd have worked in collaboration to form and adopt the Gwynedd and Eryri Sustainable Visitor Economy Plan 2035. Throughout the process, consideration was given to the United Nations' World Tourism Organisation's definition of sustainable tourism:

"Tourism that takes full account of its current and future economic, social and environmental impacts, addressing the needs of visitors, the industry, the environment and host communities".

10 arfer da i fod yn ymwelydd cynaliadwy!

Defnyddiwch drafniadaeth gyhoeddus
Use public transport



Ymwelwch y tu allan i'r cyfnod brig
Visit out of peak times



Ail-lenwch eich potel ddŵr
Refill your water bottles



Arhoswch mewn gwersylloedd lleol neu westai/G&B
Stay in local campsites or hotels/B&Bs



Prynwch gynnyrch lleol
Shop local



Gwirfoddolwch neu roi cyfraniad ariannol
Volunteer or donate



Dilynwch y Côd Cefn Gwlad
Follow the Countryside Code



Top 10 Sustainable Tourism Tips!

Dysgwch ychydig o Gymraeg
Learn a little Welsh



Arhoswch ar y llwybrau
Stay on the paths



Ewch â'ch holl sbwriel adref
Take all your waste home





PARTNERIAETH TIRWEDD Y
CARNEDDAU
LANDSCAPE PARTNERSHIP

Mae Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn gynllun 5 mlynedd (2020-2025) a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu i warchod treftadaeth naturiol a diwylliannol tirwedd y Carneddau.

Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn gyffrous wrth i ni weithio tuag at ein hamcanion er lles natur, diwylliant, a hanes yr ardal. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r 1561 o fynychwyr a gwirfoddolwyr a ymunodd mewn dros 100 o ddigwyddiadau a gweithgareddau dros y flwyddyn. O waith cloddio archaeolegol, adfer cloddiau, a mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol; mae pobl a chymunedau o amgylch y Carneddau yn ymgynnull i ddarganfod, diogelu, a dathlu'r mynyddoedd trawiadol hyn a'u holl rinweddau a straeon arbennig.

The Carneddau Landscape Partnership is delivering a 5 year National Lottery Heritage Fund supported scheme (2020-2025) working collaboratively to safeguard the natural and cultural heritage of the Carneddau landscape.

2022 has been an exciting year as we worked towards our goals for the benefit of the area's nature, culture and history. We are extremely grateful to the 1561 delegates and volunteers who joined us in over 100 events and activities held over the year. From archaeological digs, wall restorations and tackling invasive species; people and communities from all around the Carneddau convene to discover, protect and celebrate these impressive mountains and all their special qualities and stories.

Prentisiaeth y Carneddau

Mae Prentisiaeth y Carneddau yn cynnig cyfle unigryw i ddatblygu sgiliau cadwraethol ymarferol trwy weithio gyda mudiadau megis Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Eryri, ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i enwi dim ond rhai.

Yn ogystal â chael profiad gwaith ymarferol a chreu rhwydweithiau gyda chyflogwyr posibl, mae'r brentisiaeth hefyd yn cynnig cymhwyster Cadwraeth Amgylcheddol Lefel 2 gyda Choleg Cambria i fynd llaw yn llaw â'r hyn a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi cyflogi dwy brentisiaeth lwyddiannus hyd yn hyn, gydag un cyn-brentis yn llwyddo i gael swydd gadwraethol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn syth ar ôl gorffen ei phrentisiaeth.



Carneddau Apprenticeship

The Carneddau Apprenticeship offers a unique opportunity to develop practical conservation skills through working with bodies such as the National Park Authority, the National Trust, Cymdeithas Eryri (Snowdonia Society) and the Gwynedd Archaeological Trust to name a few.

As well as gaining practical work experience and establishing contact with potential employers, the apprenticeship also offers a Level 2 Environmental Conservation qualification with Coleg Cambria to complement the knowledge gained over the year.

So far we have employed two successful apprenticeships, with one former-apprentice securing a conservation post with the National Trust at the end of the apprenticeship.

Dadorchuddio Henebion Archaeolegol

Mae henebion archaeolegol yn greiriau diwylliannol pwysig yn y dirwedd, dyma weddillion gweithgarwch dynol a gyflawnwyd gan ein hynafiaid. Mae'r Carneddau'n llawn diwylliant a hanes; gyda channoedd o henebion, gan gynnwys aneddiadau a strwythurau caeau hynafol, wedi'u gwasgaru ar draws y dirwedd.

Gyda help gwirfoddolwyr, rydym yn dadorchuddio henebion cudd ar y Carneddau sydd wedi cael eu colli dan garpedi trwchus yn llystyfiant megis eithin a rhedyn. Trwy ail-ddarganfod llawer o'r henebion yma, gallwn eu hastudio'n drylwyr i wella ein dealltwriaeth o arferion, ffordd o fyw, a dulliau rheolaeth tir ein hynafiaid.

Yn ogystal â buddion i archaeoleg, mae'r gwaith hefyd o fudd i fywyd gwylt a bioamrywiaeth. Drwy agor pocedi o laswelltir mewn ardaloedd helaeth o eithin neu redyn, rydym yn gwella amrywiaeth y dirwedd, yn annog mosaig o wahanol gynefinoedd a phlanhigion i dyfu, sydd yn eu tro'n cefnogi amrywiaeth ehangach o fywyd gwylt. Trwy greu bylchau rhwng ardaloedd mawr o eithin, rydym hefyd yn lleihau'r perygl o danau gwylt drwy greu rhwystrau tân naturiol, gan leihau'r perygl o golli ardaloedd mawr o gynefinoedd gwerthfawr fel rhostiroedd.

Mae ucheldiroedd y Carneddau'n cefnogi amrywiaeth eang o adar. Mae'n well gan adar megis Clochdar y Cerrig, Corhedydd y Waun, a Mwyalchen y Mynydd fyw mewn eithin a rhedyn. Ar y llaw arall, mae adar fel y Frân Goesgoc angen glaswelltir byr i allu chwilota am eu prif fwyd, infertebratau; felly cydbwysedd o wahanol fathau o gynefinoedd yw'r nod, i alluogi bywyd gwylt y mynyddoedd i ffynnu drwy gynnal cymaint â phosib o fioamrywieth.

Ymunwch â ni eleni i ddarganfod a diogelu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol y Carneddau. Mae gennym lawer iawn o gyfleoedd gwirfoddoli, o blannu coed i gasglu hanesion llafar a straeon yn eich cymunedau.



Unveiling Archaeological Monuments

Archaeological monuments are important cultural relics within the landscape, these are what remain of our ancestors' activities. The Carneddau is full of culture and history; with hundreds of monuments, including ancient settlements and field systems, scattered across the landscape.

With the help of volunteers, we unveil hidden monuments on the Carneddau that have been concealed by dense vegetation such as gorse and bracken. By rediscovering many of these monuments, we can study them closely to improve our understanding of our ancestors' customs, way of life and land management methods.

As well as archaeological gains, the work also benefits biodiversity. By opening up pockets of grassland in areas of extensive gorse or bracken, we can improve the diversity of landscape, encouraging a mosaic of different habitats and plants, which in turn sustains a wider diversity of wildlife. Creating pockets between large areas of gorse also reduces the risk of wildfires by creating natural fire breaks, lessening the risk of losing valuable habitats such as heathland.

The uplands of the Carneddau support a wide range of birds. Some birds such as the Stonechat, Meadow Pipit and Ring Ouzel prefer gorse and bracken. On the other hand, birds such as the Chough needs short grassland in order to forage for its main source of sustenance, invertebrates; therefore the aim is to secure a balance of habitats, so that the mountains' environment sustains a thriving diversity of wildlife.

Join us this year to discover and safeguard the Carneddau's cultural and natural heritage. There are plenty of volunteering opportunities, from planting trees to recording your communities' oral histories and stories.

Dilynwch ein cyfryngau cymdeithasol i ddarganfod beth sydd i ddod a sut y gallwch gymryd rhan.



Follow our social media platforms to find out what's happening and how you can take part.



Beth am fynd am dro?!



Fancy going for a walk?!

Llwybr y Pysgotwyr a Chwm Bychan, Nantmor (ger Beddgelert)

Dyma gylchdaith fendigedig sy'n dechrau ym Meddgelert yng ngogledd y Parc Cenedlaethol. Byddwch yn dilyn Afon Glaslyn trwy fwllch creigiog Aberglaslyn, cyn dringo'n hamddenol trwy goedlan hynafol i Gwm Bychan lle gwelwch olion hen waith mwyngloddio'r ardal. Wedi gostwng o Gwm Bychan i lawr i Lyn Dinas, byddwch yn ail-ymuno ag Afon Glaslyn yn uwch i fyny, gan ddilyn yr afon yn ôl i lawr i Feddgelert.

Pellter:	Tua 10 km
Amser:	Tua 5 awr
Tirwedd:	Garw gyda rhai darnau gwlyb - gwisgwch esgidiau addas.
Dechrau/diwedd:	Maes parcio APCE ym Meddgelert (oddi ar yr A498)
Map perthnasol:	Ordnance Survey Explorer OL17 (Snowdon & Conwy Valley)



Fisherman's Path and Cwm Bychan, Nantmor (near Beddgelert)

A delightful circular walk from Beddgelert in the north of the National Park. The route will take you along the Afon Glaslyn river and through the rocky Aberglaslyn pass, before climbing through an ancient woodland to Cwm Bychan where you will find the remains of the area's former mining industry. Once back down from Cwm Bychan the route re-joins Afon Glaslyn further upstream, and follows the river back down to Beddgelert.

Distance:	Approx 10 km
Time:	Approx 5 hours
Terrain:	Rough with some wet sections - wear suitable footwear.
Start/finish:	SNPA car park in Beddgelert (off the A498)
Relevant map:	Ordnance Survey Explorer OL17 (Snowdon & Conwy Valley)



Llwybr Clogau, Bontddu (ger Dolgellau)

Heb os, prif atyniad y llwybr hwn yw'r perl treftadaeth ddiwydiannol sef mwynglawdd aur Clogau. Mae gorffennol diwydiannol cyfoethog Eryri yn un o'i rinweddau unigryw, ac mae Clogau yn rhan gynhenid o'r dreftadaeth honno. Mae Clogau yn opsiwn gwych i'r rhai sydd ar ddechrau eu taith i ddarganfod hanes diwydiannol Eryri.

Clogau Walk, Bontddu (near Dolgellau)

The main attraction of this path is undoubtedly the industrial heritage gem that is Clogau gold mine. Eryri's rich industrial past is one of its unique qualities, and Clogau is an inherent part of that heritage. Clogau is a fantastic option for those at the beginning of their journey to discover the industrial history of Eryri.

Pellter:	Tua 6.5km
Amser:	Tua 3 awr
Tirwedd:	Llwybrau garw dros amrywiaeth o dirwedd gyda darnau serth.
Dechrau/diwedd:	Cilfan ym mhen draw Bontddu yn Nolgellau oddi ar yr A496
Map perthnasol:	Ordnance Survey Explorer OL23 (Cadair Idris & Llyn Tegid)

Distance:	Approx. 6.5km
Time:	Approx 3 hours
Terrain:	Rough paths over a range of terrain with some steep sections.
Start/finish:	Layby in the far end of Bontddu, Dolgellau - off the A496
Relevant map:	Ordnance Survey Explorer OL23 (Cadair Idris & Llyn Tegid)



Llwybr Pren Traeth Benar, Dyffryn Ardudwy

Mae Traeth Benar yn cael ei ystyried yn un o draethau harddaf yr ardal ac yn sefyll o fewn Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Dyffryn. Mae system dwyni tywod Morfa Dyffryn yn dirwedd arfordirol drawiadol sy'n enwog am ei chyfoeth o fywyd gwylt a phlanhigion arbenigol sy'n amrywio o dymor i dymor.

Mae'r llwybr pren yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau, gan ei wneud yn lle gwych i dreulio amser ger y môr

Benar Boardwalk, Dyffryn Ardudwy

Benar Beach is considered one of the most beautiful beaches in the area and stands within the Morfa Dyffryn National Nature Reserve.


Morfa Dyffryn's dune system is an impressive coastal landscape famous for its wealth of wildlife and specialised plants that vary from season to season.

The boardwalk is suitable for wheelchairs and prams, making it a fantastic place to spend time near the sea

Pellter:	Tua 0.25km
Amser:	Tua 15 munud
Tirwedd:	Ffordd tarmac a llwybr pren
Dechrau/diwedd:	Maes parcio Morfa Dyffryn



Distance:	Tua 0.25km
Time:	Tua 15 munud
Terrain:	Tarmac road and boardwalk
Dechrau/diwedd:	Car park in Morfa Dyffryn



Ceir rhagor o fanylion a chyfarwyddiadau ar gyfer y teithiau cerdded yma a llawer iawn mwy ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar www.eryri.llyw.cymru

Further details and directions for these walks and many others can be found on the National Park Authority's website www.eryri.llyw.cymru



Diwrnod ym mywyd... A day in the life of...



Dion Roberts

Swyddog Amaeth ac
Adnoddau Naturiol
Agriculture and Natural
Resources Officer



Beth yw pwrpas dy rôl di fel Swyddog Adnoddau Naturiol ac Amaeth?

Fy rôl i ydi gweinyddu a datblygu prosiectau gyda'r nod o warchod ac ehangu adnoddau naturiol. Mae'r gwaith yn cynnwys annog cynnydd mewn bioamrywiaeth a gwella gwytnwch cynefinoedd. Dwi hefyd yn gweithio'n agos ag amaethwyr er mwyn cynnig cyngor ar sut i greu cynefinoedd iach a datblygu prosiectau newydd.

What is the purpose of your role as an Agriculture and Natural Resources Officer?

My role is to administer and develop projects with the aim of safeguarding and expanding natural resources. The work involves encouraging an increase in biodiversity and improving the resilience of habitats. I also work closely with farmers to provide advice on how to create healthy habitats and develop new projects.

Pa fath o waith cadwraeth wyt ti'n gyfrifol amdano?

Mae'r gwaith yn amrywiol iawn. Dwi'n ymgymryd â nifer o brosiectau plannu gwrychoedd a choed, a hefyd adfer coedlannau trwy waredu *Rhododendron ponticum*. Byddaf hefyd yn ymgymryd â phrosiectau adfer mawndir, ac adfer rhostiroedd trwy reoli eithin a phrysgwydd.

What kind of conservation work are you responsible for?

The work is quite varied. I undertake many hedgerow and tree planting projects, as well as restoring woodlands by eradicating *Rhododendron ponticum*. I also undertake peat restoration projects, as well as restoring heathlands through gorse and scrub management.

Ymateb i Her yr Hinsawdd



Tackling the Climate Challenge

Fel Awdurdod Parc Cenedlaethol mae gennym ran i'w chwarae yn yr argyfwng hinsawdd. Trwy ymgymryd ag amryw waith cadwraeth ein nod yw lleihau'r carbon sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer. Dyma sydd gan ddau aelod o'n tîm cadwraeth i'w ddweud...

As a National Park Authority we have a role to play in the climate emergency. By undertaking various conservation work we aim to reduce the volume of carbon that's released into the atmosphere. Two members of our conservation team tells us more...

Pam fod coed yn bwysig i her yr hinsawdd?

Yn ogystal â darparu'r ocsigen yr ydym yn anadlu trwy ffotosynthesis, mae coed yn chwarae rhan bwysig mewn ansawdd aer. Mae coed yn gweithredu fel storfeydd carbon mawr trwy amsugno carbon o'r atmosffer a'i gloi am ganrifoedd. Yn anffodus, mae ein stoc o goed aeddfed yn cyrraedd diwedd eu hoes, ac felly rydym angen plannu coed yn eu lle, yn ogystal â phlannu coed ychwanegol. Mae plannu coed yn strategol hefyd yn gymorth i atal llifogydd.

Beth ydym ni'n ei wneud i gynyddu'r nifer o goed yn y Parc Cenedlaethol?

Yma yn Eryri rydym yn eiriolwyr plannu coed. Rydym yn gweithio gyda thirberchnogion trwy gynnig cynlluniau grant plannu coed a gwrychoedd. Mae gennym hefyd feithrinfa goed lle tyfir coed brodorol o hadau lleol. Plennir y coed yn ystod dyddiau gwirfoddoli neu ar gyfer cynlluniau plannu coed graddfa fechan mewn cydweithrediad gyda'r cymunedau lleol a thirberchnogion.

Sut ydym yn cydbwysu coed gydag anghenion amaethyddol?

Rhaid taro cydbwysedd rhwng y tir sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu bwyd, cadwraeth a phlannu coed; er enghraifft, mae ardaloedd rhedynnog anhygyrch heb eu dynodi'n opsiynau amgen gwyh. Mae newid ffensys am wrychoedd, neu sefydlu parcdir hefyd yn bosibiliadau amgen heb gyfaddawdu'r borfa. Mae gwrychoedd hefyd yn darparu cysgod effeithiol i anifeiliaid fferm a bywyd gwylt.

Pa wahaniaeth fydd yr ymyraethau hyn yn ei wneud i'r amgylchedd a bioamrywiaeth?

Yn ogystal â chyfrannu at ansawdd aer, mae coed hefyd yn helpu i liniaru effaith glaw trwm trwy fod fel rhwystr sy'n arafu treiddiad glaw i'r tir a'i ryddhad i'r afonydd, gan helpu i atal llifogydd. Mae coed, a gwrychoedd yn arbennig, yn darparu cynefn diogel i amrywiaeth eang o fioamrywiaeth. Maent yn darparu bwyd, yn ogystal â choridor diogel i fywyd gwylt fynd o un lle i'r llall.

Coed / Trees



Rhydian Roberts

Swyddog Coed a
Choedlannau
Tree and
Woodland Officer



Why are trees important in the climate challenge?

As well as providing the oxygen we breathe through photosynthesis, trees play an important role in air quality. Trees act as large carbon stores by absorbing atmospheric carbon and locking it up for centuries. Unfortunately, our stock of mature trees are reaching the end of their lifespan, so we need to replace these, as well as planting additional trees. Strategic tree planting also plays a part in flood prevention.

What are we doing to increase tree cover in the National Park?

Here in Eryri we are advocates of tree planting. We work with landowners by offering tree planting and hedgerow grant schemes. We also have our own tree nursery where native trees are grown from local seeds and are used in various small-scale tree planting schemes and volunteering days in collaboration with local communities and landowners.

How do we balance tree planting with agricultural needs?

We need to strike a balance between land available for food production and conservation and tree planting, for example inaccessible non designated bracken areas are potentially great options. Replacing fencing with hedgerows, or establishing parklands are also great solutions that don't compromise pastures. Hedgerows also provide effective shelter for livestock and wildlife.

What difference will these interventions make to the environment and biodiversity?

As well as contributing to air quality, trees also help mitigate the effect of heavy rainfall by acting as a barrier that slows down water penetration and subsequently the flow of water into rivers, which in turn helps to prevent flash flooding. Trees, and hedgerows in particular, provide a safe habitat for a wide range of biodiversity. They provide a source of food, as well as a safe corridor for wildlife to get around.

Beth sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i ti yn dy swydd?

Mae'n bleser gweld gwaith yn datblygu o'r broses gychwynnol o drafodaethau, i ymweliad maes a gosod cytundebau, ac wedyn gweld y gwaith yn cael i wireddu. Mae'n braf gweld gwelliannau wedi ei gwblhau.

Dwi wrth fy modd allan yn y maes yn gweithio yng nghanol natur, a rhannu fy swyddfa awyr agored efo adar prin fel y rugiar goch, brân goesgoch, gwalch y pysgod a'r hebog tramor!

What do you enjoy most about your work?

It's very satisfying to see progress being made, from the initial discussions, to site visits and issuing contracts, and then seeing the work come to fruition. It's so nice to see the improvement works completed.

I love being out on field visits, surrounded by nature and sharing my open-air office with rare birds such as the red grouse, chough, osprey and peregrine falcon!

Prosiect Cynefinoedd Cynaliadwy Amaethwyr Dinas Mawddwy

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae amaethwyr yn ardal Dinas Mawddwy wedi elwa o Gynllun Rheoli Cynaliadwy dan arweiniad Awdurdod y Parc. Mae'r cynllun a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru bellach wedi dod i ben a gall amaethwyr a thrigolion ardal Mawddwy fwynhau ffrwyth y gwaith.

Nod y cynllun oedd gwella amodau amgylcheddol yr ardal ar raddfa tirwedd trwy gydweithio ag amaethwyr lleol. Trwy'r cynllun cyflawnwyd gwaith yn cynnwys adfer mawndir ger yr Aran Fawddwy, gwaith datblygu terfynau traddodiadol drwy blannu, tocio a phlygu gwrych, a sefydlu coedlannau bychain ar ffermydd.

Roedd elfen ymgysylltu cymunedol cryf ynghlwm â'r prosiect hefyd, lle cydweithwyd ag ysgolion lleol ar weithgareddau fel casglu hadau coed, a chynhaliwyd sawl digwyddiad gwirfoddoli yn yr ardal.

Dinas Mawddwy Sustainable Management Scheme

Over the past two years farmers in the Dinas Mawddwy area have benefitted from a Sustainable Management Scheme under the leadership of the Park Authority. The scheme, which is funded by the Welsh Government, has now come to an end and the residents and farmers of the Mawddwy area can enjoy the benefits.

The scheme's aim was to improve the area's environmental conditions on a landscape level by working collaboratively with local farmers. Work such as peatland restoration near the Aran Fawddwy, developing traditional boundaries by planting, pruning and laying hedgerows, and establishing small woodlands on farms was completed through the scheme.

Community engagement was also an integral part of the project, where local schools took part in activities such as collecting tree seeds, and many volunteering events were held in the area.



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Mawndiroedd / Peatlands



Beth yw mawndiroedd a pham maen nhw mor bwysig i'r amgylchedd?

Yn syml, mawndir yw tir lle ceir mawn! Mewn mannau sy'n naturiol wlyb, fel copaon bryniau glawog, neu bantiau lle nad yw dŵr yn draenio, mae'r tir yn ddyfrlawn drwy'r amser. Golyga hyn nad yw planhigion yn pydru'n llwyr pan fyddant yn marw, ac felly'n ffurfio mawn tywyll, llawn carbon. Mae cymaint o garbon yn y mawn hwn fel bod mawndir, er mai dim ond 3% o arwynebydd y ddaear maent yn ei orchuddio, yn dal dros ddwywaith mwy o garbon na choedwigoedd y byd gyda'i gilydd!

A yw ein mawndiroedd mewn cyflwr da ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae tua 75% o fawndiroedd Cymru wedi eu difrodi neu eu haddasu. Golyga hyn eu bod wedi eu draenio ar gyfer amaeth, gor-bori gan anifeiliaid, eu torri am danwydd, neu wedi eu plannu â choed conwydd. Mae llawer o'r arferion hyn yn hanesyddol, ond mae eu heffeithiau yn parhau i achosi problemau heddiw. Mae'r gweithgarwch hyn yn golygu fod ein mawndiroedd wedi sychu neu erydu, gan ryddhau tunelli o nwyon tŷ gwyrdd a gwacáu'r storfa garbon sydd wedi cymryd miloedd o flynyddoedd i ffurfio.

Beth ydym ni'n ei wneud i wella cyflwr ein mawndiroedd?

Ein nod yw atal carbon rhag cael ei ryddhau o'n mawndiroedd ac adfer eu swyddogaeth naturiol trwy ail-wlychu'r mawn a lleihau erydiad. Gwnawn hyn drwy orchuddio mawn moel a thorlannau mawn agored, cau ffosydd artiffisial, tynnu coed diangen a rhywogaethau ymledol sy'n sychu'r mawn, rheoli pori ac arafu llif dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yma'n cael ei gyflawni gan gontractwyr arbenigol.

Pa wahaniaeth fydd yr ymyriadau hyn yn ei wneud i'r amgylchedd a bioamrywiaeth?

Trwy ail-wlychu'r mawn ac adfer y broses naturiol, byddwn yn gwella bioamrywiaeth ac yn gwarchod y carbon o fewn y mawn. Bydd ein mawndiroedd yn cymryd amser i adfer yn llawn, ond rydym eisoes yn gweld gwahaniaeth. Hyd yn oed o fewn ychydig fisoedd wedi adfer rydym yn gweld adar, amffibiaid a gwas y neidr yn dychwelyd i'r safle, gan ddefnyddio'r pyllau newydd, twmpathau mwsogl a rhigolau.



Rachel Harvey
Swyddog Mawndiroedd
Peatlands Officer

Cyn / Before



Ar ôl / After



What are peatlands and why are they important for the environment?

Peatlands are, quite simply, where we find peat! In naturally wet places, like on the tops of rainy hills, or in hollows where the water doesn't drain away, the ground remains waterlogged all the time. This means that plants don't fully decompose when they die, and they form dark, carbon-rich peat. This peat is so full of carbon that, despite covering only 3% of the earth's surface, peatlands contain more than twice the amount of carbon than all the world's forests combined!

Are our peatlands currently in a good state?

Currently around 75% of Welsh peatlands are in a damaged or modified state. This means they've been drained for agriculture, over-grazed by livestock, cut for fuel, or planted with conifer plantations. Many of these practices are historical, but the effects are still causing problems today. These activities have caused our peatlands to dry out or erode away, leaking tonnes of greenhouse gases and depleting the carbon store that has taken thousands of years to build.

What are we doing to improve the condition of our peatlands?

Our goal is to stop carbon being lost from our peatlands and to restore their natural function by re-wetting the peat and reducing erosion. We do this by covering up bare peat and peat hags (small cliffs of bare peat), blocking artificial drainage ditches, removing unwanted trees and invasive species that dry out the peat, managing grazing, and slowing the flow of water. Most of this work is undertaken by specialist contractors.

What difference will these interventions make to the environment and biodiversity?

By re-wetting the peat and restoring natural function, we're both improving biodiversity and protecting the carbon stored in the peat. Our peatlands will take a while to fully recover, but we're already seeing a difference. Even as soon as a few months after restoration, we can see breeding birds, amphibians and dragonflies coming back to site, making use of the restored pools, moss hummocks and gullies.



Canolfan Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park Centre
PLAS TAN Y BWLCH

Plas Tan y Bwlch

Saif Plas Tan y Bwlch, sef Canolfan Parc Cenedlaethol Eryri ar lecyn bendigedig yn edrych dros ddyffryn Afon Dwyrdd. Mae nifer o newidiadau wedi digwydd yn y plas hanesyddol hwn dros y blynyddoedd diwethaf ond dyma ychydig o'r gwasanaethau yr ydym yn ei gynnig ar hyn o bryd.

Plas Tan y Bwlch is the Eryri National Park Centre which occupies a superb position overlooking the valley of the river Dwyrdd. Many changes have occurred at this historic manor over the past few years and here are some of the services we currently offer.

☎ **01766 772600**

✉ **plas@eryri.llyw.cymru**

Llety

Gellir archebu Gwely & Brecwast yn y Plasty G18. Mi fyddwch yn aros yn yr un man a'r perchnogion blaenorol, sef teulu'r Oakeley, a oedd yn adnabyddus tu hwnt yn lleol fel arloeswyr y diwydiant llechi yn ardal Ffestiniog.

Mae cyfleusterau gwneud te a choffi ar gael i'r gwesteion mewn lolfa gyfforddus yn barhaus, yn ogystal â WiFi am ddim, Bar ac Ystafell Sychu.

Mae'r Plas yn le perffaith i aros ar gyfer antur yn Eryri oherwydd y lleoliad canolog yng nghalon y Parc Cenedlaethol.



Accommodation

Bed & Breakfast can be booked at the C18 manor. You would be staying in the same house as the previous owners, the Oakeley family, who were very well renowned locally as the pioneers of the Ffestiniog slate industry.

Tea and coffee making facilities are available to guests at all times in a comfortable lounge, together with free Wifi, Bar, and a Drying Room.

The Plas is the perfect place to stay for an adventure in Eryri because of its central position at the heart of the National Park.

Cyrsiau

Nid ydym yn cynnig cyrsiau yn fewnol bellach ond rydym yn annog unrhyw diwtoriaid neu arweinwyr i gysylltu â ni er mwyn trafod cynnig unrhyw gyrsiau yma, mae posib i ni ddarparu llety ac arlwyio ar gyfer unrhyw gyrsiau galwedigaethol neu addysgiadol hoffai rhywun eu cynnal gyda ni.



Courses

We no longer offer courses but we do encourage any tutors or leaders to contact us to discuss hosting any courses here, we can offer accommodation and catering for anyone who wishes to arrange a vocational or educational course with us.

Ystafelloedd Cyfarfod

Mae Plas Tan y Bwlch yn lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal cynadleddau, digwyddiadau, seminarau a chyfarfodydd. Mae'r gwahanol ystafelloedd megis y lolfa, yr ystafell gyfrifiaduron neu theatr yn cynnig ei hun ar gyfer unrhyw fath o gyfarfod megis gweithdai, hyfforddiant neu hyd yn oed gyflwyniad neu arddangos ffilm.

Mae trefnu cyfarfodydd a chynadleddau yn gallu bod yn broses anodd ac yn dasg ddiddiolch. Ond mae'n staff yma yn barod i'ch cynorthwyo a'ch cynghori gan sicrhau'r trefniant gorau i chi.

Cofiwch fod modd i ni gynnig pecyn arlwyio ar eich cyfer, gallwn ddarparu amryw o adnoddau ychwanegol fel rhan o bris yr ystafell, ac mae gennym wifi rhad ac am ddim yma hefyd.



Meeting Rooms

